# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# SAER TROLIAU/ OLWYNION

Roedd seiri troliau yr oesoedd canol yn adeiladu neu'n atgyweirio olwynion pren. Mae'r gair Saesneg "Wright" yn deillio o'r gair "wrytha" yn Hen Saesneg, ac yn golygu gweithiwr neu ffurfiwr pren. Yr enw Cymraeg yw saer troliau neu saer olwynion.

Roedd heolydd yr oesoedd canol yn dwmpathog a mwdlyd, felly roedd rhaid i'r olwyn fod yn gryf ac yn gallu gwrthsefyll pydru ar ôl bod mewn dŵr.

Roedd y crefftwyr hyn yn cynhyrchu olwynion ar gyfer wagenni, ceirt, trapiau a choetsys. Roeddent hefyd yn cynhyrchu'r olwynion a'r fframau i'w defnyddio o gwmpas y cartref.

Byddai'r saer troliau'n gyfrifol am bob agwedd ar gynhyrchu'r olwyn, o ddewis a pharatoi'r pren hyd at lunio'r darnau metal a oedd yn dal yr olwyn at ei gilydd.

Er bod y rhan fwyaf o'r olwynion yn cael eu gwneud o bren, ambell waith defnyddiwyd deunyddiau eraill, megis asgrwn a chorn. Ar adegau, defnyddiwyd metal i lunio ymyl yr olwyn.

I gychwyn, roedd rhaid i'r saer troliau ddewis y math cywir o bren. Byddai'n defnyddio pren caled fel deri, coed ynn neu lwyfen, gan fod y prennau hyn yn gryf, yn deyg o barhau ac yn gwrthsefyll pydru.

Unwaith bod y pren wedi'i ddewis byddai'r saer troliau'n defnyddio amrywiaeth o dŵls, gan gynnwys llif, bwyell gam a chŷn, i ffurfio'r pren i'r siap a maint priodol.




Gan awdur anhysbys, Public domain, via Wikimedia Commons

# MYSTERIOUS AFAN CUDD




CC BY-SA 2.5, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=811964

Wedi iddo lunio darnau pren yr olwyn byddai'r saer troliau'n mynd ati i gynhyrchu darnau metal, megis yr echel, ymyl yr olwyn a'r both. Fel arfer byddai'r darnau hyn yn cael eu gwneud o haearn gyrru neu ddur, ac roedd angen llawer o sgil i'w ffurfio a'u hadeiladu'n iawn.

Y cam diwethaf yn y broses o gynhyrchu olwyn oedd gosod yr ymyl metal a chysylltu'r darnau eraill at y ffrâm pren. Roedd angen bod y saer troliau wedi mesur y cyfan yn ofalus a bod yn fanwl iawn wrth osod y cyfan at ei gilydd. Gallai unrhyw gamgymeriadau arwain at olwyn sigledig, ac fe allai hyn olygu bod yr wagen neu'r cart yn dymchwel.

Roedd seiri troliau yr oesoedd canol hefyd yn atgyweirio olwynion toredig.



By Bertrand Gille, « Petites questions et grands problèmes : la brouette, » La Recherche en histoire des sciences, 1983, ISBN 2-02-006595-9., Public Domain, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=5094011

Y testun wedi'i addasu o:
https://medievalbritain.com/type/medieval-life/occupations/medieval-wheelwright/
https://www.medievalchronicles.com/medieval-life/medieval-jobs-list/forging-the-wheels-of-time-exploring-the-vital-role-of-medieval-wheelwrights/

MYSTERIOUS AFAN CUDD